Competition & Markets Authority

# Ymgynghoriad Cynllun Blynyddol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd 2022/23

2 Rhagfyr 2021
CMA151con
CMA/2021/01

# Ymgynghoriad Cynllun Blynyddol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd 2022/23

Cyflwynwyd i Senedd Cymru, y Senedd, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â pharagraff 13(2) Atodlen 4 Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (fel y'i diwygwyd dan adran 40(3) Deddf Swyddfa'r Farchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020)

OGL

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd gan y deiliad hawlfraint dan sylw.

Gallwch weld y cyhoeddiad hwn yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn atom ni i general.enquiries@cma.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-3019-1

E02683089 11/21

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Y dudalen gwybodaeth ymgynghori

## Cwmpas yr ymgynghoriad

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw rhoi cyfle i'r rhai sydd â diddordeb ynddo i leisio barn a rhoi sylwadau ar Gynllun Blynyddol arfaethedig yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer 2022/23, sy'n nodi cyfeiriad y sefydliad a'r prif themâu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

## Cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad

Gobeithiwn y bydd y Cynllun Blynyddol drafft hwn yn rhoi arwydd clir i chi o'n themâu arfaethedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ac edrychwn ymlaen at ddarllen eich adborth a'ch awgrymiadau.

Rydym yn croesawu safbwyntiau dros e-bost neu gan ddefnyddio'r ffurflen we ar dudalen we yr ymgynghoriad, a gofynnwn i chi gyfeirio at y cwestiynau canlynol:

- A ydych chi'n cytuno â chyfeiriad a themâu ffocws cyffredinol y CMA sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Blynyddol drafft 2022/23?
- A oes unrhyw newidiadau ydych chi'n credu y dylem eu gwneud i'n prif themâu ar gyfer 2022/23?

## Hyd

2 Rhagfyr 2021 hyd at 5pm 21 Ionawr 2022

## Sut i ymateb

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu a ydych yn cynrychioli safbwyntiau sefydliad. Gofynnwn i chi gyflwyno unrhyw sylwadau yn ysgrifenedig drwy'r ffurflen we ar wefan yr ymgynghoriad neu drwy e-bost i general.enquiries@cma.gov.uk erbyn 5pm 21 Ionawr 2022 fan bellaf.

Ar gyfer unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost i general.enquiries@cma.gov.uk.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

Byddwn yn ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad ac yn cyhoeddi crynodeb o'r holl ymatebion, ynghyd â fersiwn derfynol o'r Cynllun Blynyddol, erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

## Cydymffurfio ag Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio ag Egwyddorion Ymgynghori diweddaraf Swyddfa'r Cabinet.
Mae meini prawf Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet i'w cael yn www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance.

## Diogelu data a chyfrinachedd

Noder y bydd unrhyw ddata personol yr ydych yn ei gyflenwi yn cael ei brosesu gennym ni yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data.[1] Byddwn yn cadw ac yn defnyddio'ch data personol at ddibenion ein gwaith yn unig (er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried eich ymateb) ac yna byddwn yn ei ddileu yn ddiogel. Ni fyddwn yn rhannu'ch data personol ag unrhyw drydydd parti.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut mae'r CMA yn prosesu data personol, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd.[2]

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn. Bydd yn cynnwys rhestr o sefydliadau a ymatebodd, ond nid enwau personol, cyfeiriadau, neu fanylion cyswllt eraill pobl.

Cyn cyhoeddi gwybodaeth, byddwn yn ystyried unrhyw gyfyngiadau a osodir arnom drwy'r gyfraith. Os ydych yn credu bod eich ymateb yn cynnwys gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol neu'n gyfrinachol am unrhyw reswm arall, nodwch hynny, ei farcio'n sensitif yn fasnachol neu'n gyfrinachol ac eglurwch pam.[3]

Noder y gall y wybodaeth a'r data personol sy'n cael ei roi i ni yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod yn destun ceisiadau gan aelodau'r cyhoedd dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA).[4]

---

[1] Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, byddwch yn rhoi data personol i ni (manylion eich cyfeiriad e-bost, er enghraifft). Data personol yw gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag unigolyn byw y gellir ei adnabod drwyddo.

[2] Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol, gan gynnwys sut i gysylltu â ni a sut i gyflwyno cwyn.

[3] Gweler Tryloywder a Datgelu: Datganiad ar bolisi a dull gweithredu'r CMA (CMA 6).

[4] Wrth ymateb i geisiadau o'r fath, byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau yr ydych wedi'u gwneud ynghylch cyfrinachedd.
Gweler hefyd CMA6 (gweler troednodyn 3 uchod) ynghylch dull gweithredu'r CMA i geisiadau dan FOIA.

## Adborth ynghylch yr ymgynghoriad hwn

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwad ynghylch y dull o arwain yr ymgynghoriad hwn neu gyflwyno cwyn ynghylch y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad, anfonwch e-bost i: general.enquiries@cma.gov.uk

Susan Oxley, Cyfarwyddwr Strategaeth, CMA

# Cynnwys

*Tudalen*

Rhagair ... 1
1. Cefndir y CMA ... 6
2. Ein prif themâu ar gyfer 2022/23 ... 11
3. CMA yn y 2020au ... 28
4. Adnoddau ... 31

# Rhagair

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae’r CMA wedi derbyn heriau sylweddol yn deillio o’r angen i ymgymryd â nifer fawr o gyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i ymadawiad y DU o’r Undeb Ewropeaidd (UE), gan ymateb yn gyflym ac effeithiol i ddiogelu prynwyr a chynorthwyo busnesau drwy fynd i’r afael â materion yn codi o bandemig coronafeirws (COVID-19). Rydym wedi lansio’r Unedau Marchnadoedd Digidol dros dro, wedi sefydlu a lansio Swyddfa’r Farchnad Fewnol, ac wedi ail-afael yn ein gwaith ar gynllun rheoli cymorthdaliadau y DU yn y dyfodol drwy baratoi i greu Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, y mae pob un ohonynt yn cyflwyno cyfuniad o rymoedd, swyddogaethau a chyfrifoldebau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi’r adroddiad Cyflwr Cystadlaethau Blynyddol cyntaf. Ar yr un pryd, mae’r nifer o achosion uno cwmnïau amlwladol a gwrthymddiried cymhleth, yn aml gyda ffocws digidol, yn parhau i dyfu.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, wrth i’r DU barhau i ddod o’r pandemig coronafeirws, bydd hyrwyddo cystadleuaeth yn bwysicach nag erioed o’r blaen. Mae marchnadoedd cystadleuol yn hanfodol i greu’r amodau ar gyfer buddsoddi a thwf hirdymor cynaliadwy yn y DU. Maent yn hybu arloesedd, yn cynyddu ein cynhyrchedd, sy’n golygu y gallwn gynhyrchu mwy gyda llai.

Mae cost cystadleuaeth wan yn cael ei chyflwyno gan brynwyr ar ffurf prisiau uwch ac ansawdd waelach. Mae hyn yn cynyddu costau byw, a gall effeithio ar yr aelwydydd tlotaf fwyaf. Gyda llai o gyflenwyr i ddewis o’u plith, a llai o arloesedd, mae prynwyr hefyd yn dioddef o lai o ddewis.

Dyna pam y byddwn yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn ein cynlluniau, yn cyflawni buddion ar gyfer prynwyr a busnesau ym mhob rhan o’r DU. Byddwn yn gweithio’n ddi-flino i ddiogelu prynwyr rhag ymddygiad annheg gan fusnesau. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i broblemau sylweddol mewn marchnadoedd, hyrwyddo cystadleuaeth gyda ffocws ar gefnogi llwybr y DU i adferiad a thwf economaidd cynaliadwy yn y dyfodol.

Mae gan y CMA rôl bwysig i’w chwarae o ran datblygu ffydd a hyder pan mae pobl yn prynu nwyddau a gwasanaethau, a fydd yn hanfodol i’r adferiad economaidd. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar rymuso cyfraith cystadleuaeth a phrynwyr gydag effaith uchel. Byddwn yn parhau i fod yn effro i’r risg o gydgynllwyno gwrth-gystadleuol, i uno cwmnïau sy’n awyddus i leihau cystadleuaeth ac uchafu ar drallod ariannol busnesau, ac ymgeisiau i amlygu prynwyr, busnesau bach a chanolig a microfusnesau.



Yn 2021/22, gwnaethom sicrhau cannoedd o filiynau o bunnoedd mewn ad-daliadau ar gyfer prynwyr a gafodd eu heffeithio gan y pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein portffolio helaeth o achosion diogelu prynwyr i sicrhau bod gan brynwyr ffydd mewn marchnadoedd, ac yn gwybod y bydd eu hawliau yn cael eu cefnogi, pan fyddant yn prynu nwyddau a gwasanaethau.

Rydym yn gwneud cynnydd da gyda'n portffolio sylweddol o achosion o uno a gwrthymddiried, y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ymdrin â nhw yn flaenorol. Er enghraifft, rydym yn ymgynghori mewn perthynas â'r ymgymeriadau gan Google o ran pryderon ynghylch eu cynnig i gael gwared ar gwcis trydydd parti o Chrome. Rydym yn ymchwilio i uno NVIDIA/Arm yn unol â'r Comisiwn Ewropeaidd a'r UDA. Byddwn yn ymgymryd â mwy o achosion o'r fath yn ystod y flwyddyn nesaf.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol i ymrwymiad y DU i sero net. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu achosion lle allai ymarferion rwystro'r trosglwyddiad i economi carbon isel, gan adeiladu ar waith megis yr astudiaeth i farchnad y cerbydau trydan, yr ymchwiliad i'r trefniadau arbennig hirdymor o ran cyflenwi mannau gwefru a Green Claims Code y CMA, sy'n rhan o ymgyrch ymwybyddiaeth ehangach ar gyfer busnesau a phrynwyr ynghylch yr honiadau mae busnesau yn eu gwneud mewn perthynas â'u 'nodweddion gwyrdd'. Ar ddechrau 2022, byddwn yn cyflwyno ein cyngor i'r llywodraeth o sut all y trefniadau cystadlaethau a phrynwyr gefnogi'n well nodau sero net a chynaliadwyedd y DU.

Mae'r Uned Marchnadoedd Digidol wedi'i sefydlu dros dro. Pan fydd yn weithredol, bydd yn goruchwylio trefn reoleiddiol newydd ar gyfer y cwmnïau digidol mwyaf grymus, yn hyrwyddo cystadleuaeth a blaengaredd yn y marchnadoedd hyn ac yn diogelu prynwyr a busnesau rhag arferion annheg. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ymgymryd ag achosion yn y cwmpas digidol.

Er y cyfyngiadau a oedd ar waith yn sgil y pandemig, rydym wedi gwneud cynnydd da iawn o ran cyflawni'r nodau sydd wedi'u gosod yn ein Cynllun Blynyddol 2020/21. Rydym yn y broses o ailddechrau rhai gweithgareddau, megis arolygiadau ac ymweliadau â safleoedd. Mae'r rhain yn adnoddau pwysig i gefnogi rhan helaeth o'n llwyth achosion.

Rydym yn ymroddedig i barhau â'n gwaith i ddeall yn well y materion sy'n wynebu prynwyr, gan gynnwys pobl fregus; i egluro ein penderfyniadau a sut maent yn helpu prynwyr; a bod yn eiriolwr cryf, mwy amlwg i brynwyr. Drwy ein gwaith dan fenter 2020au y CMA, rydym wedi bod yn ymgysylltu ag ystod ehangach a mwy amrywiol o randdeiliaid nag erioed o'r blaen, gan gynnwys ymgysylltu'n fwy â phrynwyr,

busnesau bach, awdurdodau lleol ac elusennau ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU.

Byddwn yn parhau i ehangu presenoldeb y CMA ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU er mwyn bod yn agosach at brynwyr a gwella ein dealltwriaeth o'r problemau amlwg mae pobl yn eu hwynebu ledled y DU, a'n gallu i fynd i'r afael â nhw. Byddwn yn ehangu ein presenoldeb cyfredol yng Nghaerdydd, Belfast a Chaeredin; a byddwn yn sefydlu Uned Ficroeconomeg yn Darlington, yn ôl argymhelliad yr adroddiad annibynnol gan John Penrose AS.[5] Bydd yr Uned Ficroeconomeg yn ehangu'r swyddogaeth ymchwil a gwerthuso economaidd, yn ysgrifennu'r adroddiad Cyflwr Cystadlaethau blynyddol ac yn gwneud ymchwil i ddiwygiadau i'r ochr gyflenwi er mwyn gwella cynhyrchedd. Rydym hefyd yn agor swyddfa ym Manceinion, a fydd yn gartref i'r Uned Marchnadoedd Digidol newydd.

Byddwn yn parhau i gryfhau ein perthnasoedd gyda phartneriaid ac asiantaethau cenedlaethol a rhyngwladol, yn arwain datblygiadau blaengar o ran polisi cystadlaethau a phrynwyr ar draws y byd. Am y tro cyntaf i reoleiddwyr digidol mewn unrhyw wlad, byddwn yn datblygu mwy o eglurdeb a chysondeb o ran rheoleiddio digidol drwy'r Fforwm Cydweithredol Rheoleiddio Digidol. Gan weithio gyda'n cyfatebwyr yn yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom, byddwn yn galluogi rheoliad cydlynol, dysgedig ac ymatebol o economi ddigidol y DU sy'n gwasanaethu dinasyddion a phrynwyr ac yn atgyfnerthu effaith a sefyllfa fyd-eang y DU.

Mae ein gwaith yn mewnosod ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau newydd yn mynd rhagddo. Rydym yn parhau i fod yn effro i'r anawsterau parhaus a wynebir gan fusnesau a marchnadoedd, wrth i ni ddod o'r pandemig. Byddwn yn parhau i fod yn uchelgeisiol o ran ein gwaith i hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu prynwyr, gan flaenoriaethu'r meysydd gwaith a fydd yn cyflawni'r effaith fwyaf ar gyfer prynwyr, busnesau a'r economi.

[5] "Power to the People: stronger consumer choice and competition so markets work for people, not the other way round" John Penrose (Chwefror 2021), tudalen 15.

Rydym nawr yn ymgynghori ar y themâu yr ydym yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod 2022/23.

Bydd y CMA yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu prynwyr, yn ogystal â mewnosod ei swyddogaethau newydd. Rydym yn bwriadu gwneud hynny drwy ganolbwyntio ar y themâu canlynol:




Mae llywodraeth y DU wedi adnabod pecyn o gynigion diwygio deddfwriaethol a meysydd i'w hystyried ymhellach yn ei hymgynghoriad, 'Reforming Competition and Consumer Policy: Driving growth and delivering competitive markets that work for consumers'[6]. Gyda'i gilydd, mae'r CMA yn credu y byddai'r cynigion hyn yn hyrwyddo marchnadoedd teg, agored a chystadleuol ac yn diogelu buddion prynwyr, yn ogystal â helpu busnesau teg i dyfu, mynd i farchnadoedd newydd, a chystadlu gyda deiliaid mawr.



Mae ein cyflawniadau yn y flwyddyn ddiwethaf a chyflawniad ein cynlluniau pellgyrhaeddol yn y flwyddyn sydd i ddod yn dibynnu ar waith caled, ymrwymiad ac ymroddiad ein cydweithwyr. Hoffem ddiolch i'r holl staff yn y CMA am eu hymdrechion, gan gynnwys y rheiny sy'n gweithio ar gyflawni ein swyddogaethau statudol, y rheiny sy'n darparu cyngor cyfreithiol ac economaidd arbenigol a'r rheiny

[6] Reforming competition and consumer policy - GOV.UK (www.gov.uk)

sy'n cyflawni rolau ategol hanfodol, ym meysydd megis rheoli cyfleustodau i systemau technoleg gwybodaeth, yn ystod y cyfnod heb ei debyg hwn.

Jonathan Scott
Cadeirydd



Andrea Coscelli CBE
Prif Weithredwr



# 1. Cefndir y CMA

1.1 Mae'r CMA yn adran anllywodraethol annibynnol ar lywodraeth y DU a dyma yw prif awdurdod cystadlaethau a diogelu prynwyr y DU. Rydym yn gweithio i sicrhau bod prynwyr yn cael bargen dda wrth brynu nwyddau a gwasanaethau, a bod busnesau yn gweithredu o fewn y gyfraith. Ein dyletswydd statudol yw hyrwyddo cystadleuaeth, o fewn ffiniau'r DU a'r tu hwnt, er budd prynwyr, a'n nod yw sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda er budd prynwyr, busnesau a'r economi.

1.2 Mae ein grymoedd yn deillio o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013[7] a chaiff ein gwaith ei oruchwylio gan Fwrdd ac fe'i harweinir gan y Prif Weithredwr a'r uwch dîm. Gwneir penderfyniadau mewn rhai ymchwiliadau gan aelodau annibynnol y Panel CMA.

1.3 Mae ein swyddogaethau yn cynnwys:

- Ymchwilio i gwmnïau sydd wedi'u huno sydd â'r potensial i arwain at ostyngiad sylweddol yn y gystadleuaeth. Os yw uno cwmnïau yn arwain at leihau cystadleuaeth, gall y CMA ei atal neu gyflwyno datrysiadau i fynd i'r afael â phryderon o'r fath;

- Cynnal astudiaethau, ymchwiliadau neu ddarnau eraill o waith i farchnadoedd penodol lle mae problemau a ddrwgdybir gyda chystadlaethau a phrynwyr. Gall y CMA weithredu – ac argymell i eraill weithredu hefyd – mewn marchnadoedd lle efallai nad yw'r gystadleuaeth yn gweithio'n dda;

- Ymchwilio i fusnesau i bennu a ydynt wedi torri cyfraith gystadleuaeth y DU ac, os felly, rhoi diwedd ar achosion o'r fath a'u hatal, gan gynnwys dirwyo busnesau ac annog gwahardd cyfarwyddwyr y cwmnïau dan sylw, yn ogystal ag erlid unigolion sy'n cyflawni'r drosedd cartél troseddol;

- Gorfodi ystod o ddeddfwriaethau diogelu prynwyr, mynd i'r afael â phroblemau sy'n awgrymu problem systemig yn y farchnad, neu sy'n effeithio ar allu prynwyr i wneud dewisiadau;

[7] Rydym hefyd wedi cael grymoedd newydd ar gyfer Swyddfa'r Farchnad Fewnol, a gafodd ei lansio yn swyddogol ar 21 Medi 2021, ac mae'r rheiny wedi'u nodi yn Neddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Bydd gan y CMA ragor o rymoedd yn gysylltiedig â'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a fydd yn cael ei sefydlu gan y Bil Rheoli Cymorthdaliadau 2021, sy'n destun yn y Senedd ar hyn o bryd.

- Hyrwyddo cystadleuaeth gryfach yn y diwydiannau sy’n cael eu rheoleiddio (nwy, trydan, dŵr, awyrennau, rheilffyrdd, cyfathrebu ac iechyd), gan weithio gyda rheolyddion y sector;

- Cynnal apeliadau a chyfeiriadau rheoleiddio mewn perthynas â rheoli prisiau, telerau trwyddedau neu drefniadau rheoleiddio eraill dan ddeddfwriaeth sy’n benodol i sector;

- Darparu gwybodaeth neu gyngor mewn perthynas â materion sy’n ymwneud ag unrhyw un o swyddogaethau’r CMA i’r cyhoedd, gwneuthurwyr polisi a Gweinidogion ynghylch sut allant ddylunio a gweithredu polisi mewn modd sy’n manteisio ar fuddion cystadleuaeth, ac yn diogelu a hyrwyddo buddion prynwyr; a

- Darparu cyngor technegol, adroddiadau a monitro mewn perthynas â marchnad fewnol y DU.

- O hydref 2022, darparu cyngor, adroddiadau a monitro mewn perthynas â’r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

1.4 Rydym yn mabwysiadu dull integredig at ein gwaith, yn dewis yr adnoddau hynny yr ydym ni’n credu a fydd yn cyflawni’r effaith gadarnhaol uchaf i brynwyr ac economi’r DU.

1.5 Mae gennym gylch gwaith ar draws y DU. Yn ogystal â’n swyddfa Llundain, lle mae’r rhan fwyaf o’n staff wedi’u lleoli, mae gennym bresenoldeb arwyddocaol yng Nghaeredin yn ogystal â’n swyddfeydd yn Belfast a Chaerdydd. Rydym hefyd yn agor swyddfa ym Manceinion, a fydd yn gartref i’r Uned Marchnadoedd Digidol newydd, ac yn sefydlu Uned Ficroeconomeg ar gampws Darlington Trysorydd EM.

1.6 Mae’r CMA yn ymroddedig i fod yn lle gwych i weithio. Rydym eisiau ein staff weithio mewn sefydliad sy’n dysgu ac yn gwella yn barhaus, gan eu darparu â bywyd gwaith rhagorol a chyfleoedd datblygu gyrfa. Mae ein Strategaeth Pobl yn sicrhau ein bod yn cyflawni’r uchelgais honno, gyda blaenoriaethau o ran Diwylliant, Gallu, Ymrwymiad a Chapasiti.

1.7 Dan ein model gweithredu hybrid, rydym eisiau i bawb deimlo ymdeimlad cryf o berthyn a chysylltedd gyda CMA sy’n fodern, yn wydn ac yn flaengar. Rydym yn mewnosod diwylliant a ffyrdd o weithio sy’n adlewyrchu ein presenoldeb ar draws y DU, yn ein galluogi ni i wneud ein gwaith gorau ac arwain bywydau cytbwys ac iachus, y cwbl wedi’i ddatblygu ar sylfaen o gynhwysiant a pharch. Bydd hyn yn ein galluogi ni i ddenu a chadw pobl ddawnus mewn marchnad lafur gystadleuol.

1.8 Mae datblygu gweithlu amrywiol a chynhwysol, yn enwedig ar lefelau uwch, sy'n adlewyrchu ac yn deall y cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu, yn parhau i fod y flaenoriaeth i ni. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant pedair blynedd sy'n mynd y tu hwnt yn sylweddol i ofynion gofynnol deddfwriaeth gydraddoldeb. Yn 2022, byddwn yn gweithio ar ein cynllun gweithredu ffocws dwy flynedd sy'n ein galluogi i gyflawni'r strategaeth. Yn fuan byddwn yn lansio ein Cynllun Gweithredu Anabledd, yn unol â'r strategaeth genedlaethol, i gefnogi'r dilyniant gyrfa a chyfleoedd ar gyfer cydweithwyr anabl.

1.9 Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Hil, rydym wedi gwneud peth cynnydd o ran cefnogi dilyniant gyrfa ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ond mae llawer mwy o waith i'w wneud. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithredu ein Pwyllgor Ymgynghori i gyflwyno persbectif mwy amrywiol i wneud penderfyniadau ar lefel Gweithredol a Bwrdd ac ymdrechu'n weithredol i wella ein hamrywiaeth ar lefelau uwch yn y sefydliad, gyda ffocws penodol ar gynrychioli lleiafrifoedd ethnig.

## Trosolwg o weithgareddau diweddar a chyfredol y CMA

1.10 Byddwn yn dechrau ar 2022/23 gyda llwyth gwaith cyfredol sylweddol. Ar yr adeg cyhoeddi, mae gennym 14 o achosion gorfodi cystadleuaeth, 13 o achosion diogelu prynwyr, 36 o ymchwiliadau i uno cwmnïau (gan gynnwys 5 adolygiad Cam 2), 3 astudiaeth i'r farchnad ac ymchwiliad i'r farchnad yn mynd rhagddynt. Hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn 2021/22, ers mis Ebrill 2021, rydym wedi cyhoeddi 2 benderfyniad mewn perthynas â throseddau, gan orfodi gwerth £367.8m o ddirwyon. Yn ogystal, mae 3 o'n penderfyniadau wedi'u hapelio i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadlu. Cewch weld ein holl achosion yn www.gov.uk/cma-cases.


1.11 Mae'r siartiau isod yn dangos sut mae amser staff CMA wedi'i rannu ar draws gwahanol fathau o waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

1.12 Mae dosbarthiad amser staff yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2020 a mis Medi 2021 yn cynnwys adnoddau sydd wedi'u neilltuo i'n swyddogaethau newydd eu sefydlu, sef yr Uned Marchnadoedd Digidol a Swyddfa'r Farchnad Fewnol. Mae'r categori diwethaf hefyd yn cynnwys gwaith paratoi ar gyfer yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau (a sefydlwyd gan Fil Rheoli Cymorthdaliadau 2021, sy'n destun yn y Senedd ar hyn o bryd). Mae'r categori 'Arall' yn cynnwys y meysydd prosiect canlynol: Polisi a Rhyngwladol, Eiriolaeth ac Ar y Gweill, yn ogystal â'n gwaith ar y Tasglu Marchnadoedd Digidol a phrosiectau


Cyflwr Cystadlaethau.[8]

1.13 Er yr ymddengys bod cyfanswm y cyfnod o amser staff a neilltuir i achosion o uno cwmnïau, marchnadoedd ac apeliadau rheoleiddio wedi gostwng dros y ddau gyfnod, mae'r niferoedd gwirioneddol o staff sy'n gweithio ar draws y swyddogaethau hyn wedi cynyddu. Mae'r CMA wedi recriwtio yn llwyddiannus, gan ehangu er mwyn cyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau newydd, a'n galluogi ni i gynyddu'r niferoedd sy'n ymgymryd â'n gwaith pwysig o ran gorfodi, uno cwmnïau, marchnadoedd ac apeliadau rheoleiddio.

1.14 Nid yw ein gwaith yn ymateb i COVID-19 wedi'i gyflwyno ar wahân ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2020 a mis Medi 2021. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn bellach wedi'i fewnosod yn ein gweithgareddau bob dydd a'i gynnal o fewn timau ar draws y CMA.




[8] Ar ddechrau 2020, gofynnodd llywodraeth y DU i'r CMA asesu cyflwr cystadlaethau yn y DU. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Tachwedd 2020 a rhoddodd gipolwg ar lefel a natur cystadlaethau ar draws yr economi ac mewn sawl sector. Rydym yn parhau i fonitro cyflwr cystadlaethau yn y DU.




**Noder:** Mae ‘arall’ yn ymgorffori adnoddau/meysydd prosiect (Polisi, Eiriolaeth, Ar y Gweill ac Ymgyfreitha) y mae staff yn cofnodi amser mewn cymhariaeth â nhw.

## 2. Ein prif themâu ar gyfer 2022/23

2.1. Mae cystadleuaeth yn dda i brynwyr ac yn dda i fusnesau, ac mae hefyd yn cyflwyno buddion economaidd ehangach. Mae'n helpu i sicrhau bod pobl yn cael mwy o ddewis o blith cynhyrchion a gwasanaethau gwell am brisiau is. Mae'n gwobrwyo'r busnesau hynny sy'n buddsoddi yn natblygiad cynhyrchion newydd a gwell i fodloni anghenion pobl. Mae'n annog busnesau i geisio ffyrdd mwy cost effeithiol o wneud a gwerthu'r cynhyrchion hynny, ac felly yn hyrwyddo cynhyrchedd, arloesedd a thwf economaidd cynaliadwy.

2.2. Yn ogystal, mae'n bwysig bod prynwyr yn ddysgedig, yn weithredol ac yn gallu siopa o gwmpas er mwyn dod o hyd i'r bargeinion gorau. Mae hyn yn hybu cwmnïau i geisio ennill busnes drwy gystadlu mewn perthynas ag ystod, ansawdd, pris ac arloesedd.

2.3. Wedi dweud hynny, cydnabyddwn y gall gymryd amser i brynwyr siopa o gwmpas, yn ogystal â bod yn ddryslyd; ac y gall arferion rhai cyflenwyr waethygu'r problemau hyn mewn rhai marchnadoedd. Gall y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas, megis y rheiny ar incymau isel; pobl heb fynediad at wasanaethau ar-lein neu'r rheiny sy'n ei chael hi'n anodd eu defnyddio; neu bobl sydd ag iechyd meddwl sâl sydd o bosibl yn osgoi neu'n ofni newid, wynebu heriau hyd yn oed yn fwy o ran ymgysylltu mewn marchnadoedd.

2.4. Rydym eisiau sicrhau ein bod ni, fel prynwyr, yn cael mwy o'r hyn yr ydym ei eisiau am y pris gorau posibl, gan wella cynhyrchedd a hwyluso twf cynaliadwy, creu swyddi a gwella safonau byw yn yr economi.

2.5. Mae'r CMA yn ymyrryd pryd bynnag sy'n bosibl er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu prynwyr neu pan mae'n credu y gall wella'r modd mae marchnadoedd yn gweithio. Felly, mae ymyriadau'r CMA yn ceisio hyrwyddo cystadleuaeth agored ac annog argaeledd gwell o ran cynhyrchion a gwasanaethau. Mae darparu gwybodaeth gywir, annhwyllodrus rhwng busnesau a chwsmeriaid yn hanfodol i fod yn sail i ffydd prynwyr. Pryd bynnag nad yw hynny'n bosibl neu'n ddigonol, mae ein harbenigedd yn dangos y gall ymyriadau gwahanol fod yn angenrheidiol, er enghraifft datrysiadau sy'n helpu prynwyr yn weithredol i ryngweithio mewn marchnadoedd neu siopa o gwmpas.

2.6. Rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sylweddol ar gyfer prynwyr, busnesau a'r economi gan ddefnyddio ystod lawn ein pecyn adnoddau cyfredol. Byddwn yn parhau i orfodi deddf cystadlaethau a phrynwyr; a chynnal ymchwiliadau i gwmnïau

sy'n uno a gwaith ein marchnadoedd. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith o gynghori llywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus ledled y DU i ddylunio a gweithredu polisi ar gyfer adferiad economaidd mewn modd sy'n manteisio ar gystadleuaeth ac yn ei gwella, ac yn diogelu buddion prynwyr. Mae hyn yn hanfodol mewn cyfnod pan mae llywodraethau yn hynod weithredol, yn ymyrryd â mwy o farchnadoedd mewn ffyrdd newydd neu fwy trylwyr, yn aml ar gyflymder, yn ceisio mynd i'r afael ag effaith barhaus y pandemig ac ysgogi twf wedi'r pandemig ar draws sectorau gwahanol.

2.7. Byddwn yn cynnal ein gwaith mewn perthynas â busnesau canolig a bach, sy'n chwarae rôl hanfodol yn nhwf economaidd ac mae nifer ohonynt wedi'u heffeithio'n arbennig gan y pandemig, gan y gallant hwythau hefyd ddioddef o arferion gwrth-gystadleuol.

2.8. Mae peth o waith y CMA, megis rheoli uno cwmnïau, yn 'annewisol': rhaid ei gyflawni, waeth beth yw'r cyd-destun ehangach y mae'r CMA yn gweithredu ynddo; ac mae dyddiadau cau statudol yn berthnasol. Mae gennym fwy o ddewis mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'n gwaith arall a rhaid i'r CMA benderfynu sut mae'n mynd ati i flaenoriaethu hyn mewn modd sy'n cyflawni ei ddyletswydd statudol i hyrwyddo cystadleuaeth er budd prynwyr.

2.9. Gwnaethom baratoi'n dda i ymgymryd â'n cyfrifoldebau newydd ar ôl i'r DU adael yr UE, a chynllunio ar gyfer swyddogaethau newydd, recriwtio llu o staff newydd, gan gynnwys recriwtio yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast er mwyn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth well o'r blaenoriaethau yng ngwledydd cyfansoddol y DU. Wedi dweud hynny, mae hwn yn gyfnod o newid sylweddol i'r CMA, a llawer eraill. Mae nifer a chymhlethdod yr achosion o uno cwmnïau a gwrthymddiried yr ydym yn eu hadolygu yn parhau i gynyddu; rydym yn ehangu ein gwaith yn y marchnadoedd digidol cyn lansiad yr Uned Marchnadoedd Digidol; rydym wedi lansio Swyddfa'r Farchnad Fewnol ac yn cynllunio ar gyfer sefydlu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau. Er y bydd yr heriau hyn yn parhau i gyfyngu ein hyblygrwydd o ran yr hyn y gallwn ei gyflawni eleni, byddwn yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn ein cynlluniau i ganolbwyntio ar faterion sydd wirioneddol o bwys i brynwyr y DU. Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn uniongyrchol berthnasol i fywydau bob dydd pobl a'n bod yn cadarnhau ymellach safle'r CMA wrth galon bywyd economaidd y DU.

2.10. Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn parhau i hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu prynwyr, yn ogystal â mewnosod ein swyddogaethau newydd. Wrth gyflawni ein swyddogaethau, rydym yn bwriadu canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Diogelu prynwyr rhag ymddygiad annheg gan fusnesau, yn ystod pandemig COVID-19 a thu hwnt
- Mabwysiadu cystadleuaeth er mwyn hyrwyddo arloesedd, cynhyrchedd a thwf hirdymor ar draws y DU
- Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd digidol
- Cefnogi'r trawsnewid i dwf carbon isel, gan gynnwys drwy ddatblygu marchnadoedd cystadleuol iach mewn cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy
- Cyflawni ein cyfrifoldebau newydd a chryfhau ein safle fel awdurdod byd-eang diogelu cystadleuaeth a phrynwyr



***Diogelu prynwyr rhag ymddygiadau annheg gan fusnesau, yn ystod pandemig COVID-19 a thu hwnt***

2.11. Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar weithredu'n llym i ddiogelu prynwyr rhag arferion gwrth-gystadleuol ac annheg gan fusnesau, yn ystod y pandemig a thu hwnt. Mae'n arbennig o bwysig ein bod yn parhau i ymgysylltu â phrynwyr, ar draws bob cenedl a rhanbarth y DU, gan gynnwys y rhai bregus, er mwyn ceisio deall eu hanghenion wrth i ni ymdrin ag effaith barhaus y pandemig. Mae'n debyg bod nifer uwch o bobl wedi bod yn fregus, o ganlyniad i'r pandemig, a gallai'r nifer o brynwyr sy'n fregus i ryw ffurf ar ecsploetiaeth gynyddu. Bydd cynnydd yng nghostau byw, yn enwedig ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau hanfodol, a'r canlyniadau ar gyfer incwm gwario go iawn, yn cyfyngu'r dewisiadau sydd ar gael i rai prynwyr, gan eu gadael yn fwy bregus i fasnachwyr llai gofalus. Gall yr ymdrechion hyn fod yn fwy amlwg ar gyfer aelwydydd sydd â'r incwm isaf. Mae effeithiau niweidiol unrhyw arferion annheg a gwrth-gystadleuol yn debygol o fod yn arbennig o ddifrifol ymysg prynwyr bregus, nad ydynt o bosibl yn gallu fforddio'r prisiau uwch ac yn llai cymwys i fynd i siop arall, neu fynd ar-lein, er mwyn dod o hyd i fargen well.

2.12. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith o ran ymateb i'r arferion niweidiol a gafodd eu hamlygu yn ystod y pandemig. Yn 2020/21, gwnaethom sicrhau ymrwymiadau i ad-dalu prynwyr ar gyfer gwyliau pecyn a gafodd eu canslo oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19. Gwnaethom hefyd ysgrifennu at dros 100 o gwmnïau pecynnau teithio yn eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau dan ddeddf prynwyr.

2.13. Rydym wedi cynghori'r llywodraeth ar ffyrdd o wella'r farchnad profion PCR ac wedi dechrau ymchwiliadau i ddau gwmni profion PCR sydd o bosibl yn torri'r gyfraith. Byddwn yn ystyried gweithredu ymhellach yn y maes hwn fel sy'n briodol. Mae rhai cwmnïau wedi'u cyhuddo o fethu â darparu profion a chanlyniadau yn brydlon neu o gwbl. Ymddengys bod eraill yn cam-hysbysebu profion rhad pan nad ydynt ar gael am y pris hwnnw neu eu bod yn cynnwys amodau cudd, megis lleoliadau casglu'r profion.

2.14. Byddwn yn parhau i weithredu yn y meysydd sy'n denu'r niferoedd uchaf o gwynion, fel y gwnaethom yn y sector pecynnau gwyliau a'r farchnad profion PCR. Byddwn hefyd yn parhau i wirio gyda'r cwmnïau hynny a ddarparodd ymgymeriadau yn flaenorol a chytuno i ad-dalu am wasanaethau yr amharwyd arnynt gan y cyfyngiadau o ganlyniad i COVID-19 ac a fethodd eu talu. Byddwn yn gweithio i ail-fagu ffydd prynwyr ym meysydd sydd wedi'u heffeithio gan y pandemig, a byddwn yn gweithio'n agos â busnesau i'w helpu i ddangos eu bod yn trin cwsmeriaid yn deg.

2.15. Rydym wedi parhau â'n gwaith gyda rheoleiddwyr eraill, partneriaid rhyngwladol a domestig gan gynnwys Safonau Masnach, Which? a Cyngor ar Bopeth, er mwyn dod o hyd i'r ddealltwriaeth orau bosibl o'r heriau sy'n wynebu prynwyr yn ystod y pandemig. Byddwn yn parhau â'r allgymorth hwn, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer rhaglen dreigl o ymweliadau i Cyngor ar Bopeth, ac yn ystyried mewnosod y gweithgareddau yn rhan graidd o sut ydym yn mynd ati i wneud ein gwaith bob dydd ar draws y sefydliad. Yn y dyfodol, byddwn hefyd yn mewnosod yr arferion yr ydym wedi'u hysgogi drwy ein gwaith 'Getting closer to the third sector' (gweler paragraff 3.7), sydd wedi ein helpu ni i ddatblygu ein dealltwriaeth o anghenion newidiol prynwyr a'u profiadau nhw o farchnadoedd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r sefydliadau hyn yn yr hirdymor a defnyddio'r ddysg a ddatblygir yn sgil y rhyngweithiadau hyn i fod yn sail i'n gwaith.

2.16. Yn ogystal â'n gwaith sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag effaith y pandemig, byddwn hefyd yn datblygu gorfodaeth ym meysydd eraill o ddeddf diogelu prynwyr. Byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi'r economi wrth iddi ddod o'r pandemig, a hynny drwy ddiogelu prynwyr drwy ein camau gweithredu gorfodi targedig a thrwy gefnogi busnesau gyda chanllawiau ynghylch yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Byddwn yn parhau i weithredu mewn amrywiaeth o farchnadoedd lle mae prynwyr yn dioddef colledion mewn perthynas â materion megis prydlesu tai, honiadau gwyrdd camarweiniol, adolygiadau ffug a chamarweiniol ar-lein, a gorfodi cyfryngau cymdeithasol.

2.17. Byddwn yn sicrhau bod ein gweithredoedd yn goresgyn problemau sy'n wynebu prynwyr ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU. Yn ddiweddar ysgrifenasom at Danske Bank, un o fanciau mwyaf Gogledd Iwerddon, ynghylch ail achos o dorri rheolau o Ymgymeriadau Bancio busnesau bach a chanolig, ar ôl iddo fethu ag ad-dalu'r holl gwsmeriaid a gafodd eu heffeithio gan eu cangen gyntaf.

2.18. Rydym yn ymroddedig i barhau i ymchwilio i feysydd lle mae marchnadoedd gwael yn effeithio ar aelodau'r gymdeithas a all fod yn arbennig o fregus yn sgil eu hamgylchiadau. O ganlyniad uniongyrchol i weithredu gan y CMA, erbyn hyn mae rhwymedigaethau cyfreithiol ar waith i gynorthwyo ymgymerwyr angladdau a gweithredwyr amlosgfeydd i gefnogi eu cwsmeriaid yn well o ran trefnu angladd sy'n bodloni eu hanghenion a'u cyllideb. Mae'r rhwymedigaethau cyfreithiol newydd wedi'u sefydlu yng Ngorchymyn Ymchwilio i'r Farchnad Angladdau 2021. Mae'r gofynion cyfreithiol a osodir ar ymgymerwyr angladdau yn cynnwys arddangos Rhestr Brisiau Safonol yn ffenestr eu safle ac ar eu gwefan.

2.19. Rydym hefyd wedi cyhoeddi adroddiad dros dro o'n hastudiaeth i'r farchnad i ddarpariaeth gofal cymdeithasol plant, gan gynnwys cartrefi plant a maethu, yn amlinellu pryderon sylweddol ynghylch argaeledd ein lleoliadau ac elw darparwyr preifat. Canfu ein hadroddiad dros dro fod achosion rhy aml o ddiffyg lleoliadau sy'n bodloni anghenion plant yn llawn. Rydym nawr yn ystyried ffyrdd o ymdrin â'r materion hyn, gan gynnwys argymhellion i lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig. Ein blaenoriaeth o hyd yw adnabod y ffyrdd gorau o sicrhau bod plant yn cael y gofal cywir. Bydd ein hadroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi fis Mawrth 2022. I roi ein safbwyntiau dan brawf, byddwn yn cynnal nifer o weithdai yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid o Gymru, yr Alban a Lloegr (y cenhedloedd o fewn cwmpas yr astudiaeth i'r farchnad), o ystyried y fframweithiau polisïau, deddfwriaethol a rheoleiddiol gwahanol ym mhob un o'r cenhedloedd hynny.

2.20. Gwnaethom gyhoeddi canllawiau IVF i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin yn deg, ac yn unol â'u hawliau fel defnyddwyr y gwasanaeth. Byddwn yn monitro'r sector yn agos a byddwn yn ystyried gorfodaeth os ydym yn credu nad yw busnesau yn cydymffurfio.

2.21. O ran gorfodi cystadlaethau, byddwn yn parhau i flaenoriaethu achosion lle nad yw prynwyr yn gallu prynu cynhyrchion am y pris gorau. Yn y sector offerynnau cerddorol, cyhoeddasom gyfanswm o £5.5 miliwn mewn dirwyon i ddau gwmni gwneuthuro offerynnau cerddorol am atal adwerthwyr rhag cynnig prisiau gostyngol, sef yr hyn a elwir yn 'cynnal pris adwerthu'. Rydym

hefyd yn ymchwilio i achosion a ddrwgdybir o dorri cyfraith cystadleuaeth o ran cyflenwi cynhyrchion goleuadau domestig, sydd eto yn gysylltiedig â chynnal pris adwerthu.

2.22. Byddwn yn dod â'n hymchwiliadau parhaus i gwmnïau sy'n cael eu drwgdybio o godi prisiau gormodol ac annheg neu gymryd rhan mewn ymddygiad gwrth-gystadleuol i gasgliad, gan anelu at sicrhau nad yw'r GIG, a'r trethdalwr yn y pendraw, yn talu mwy nag y dylai am feddyginiaethau a thriniaethau hanfodol, ac nad yw prynwyr sy'n dibynnu ar y cyffuriau a'r triniaethau hyn yn colli allan. Mewn perthynas â gorfodi cystadlaethau, rydym wedi cynnal ein dau ymchwiliad mwyaf i'r Ddeddf Cystadlaethau yn y sector fferyllol, yn arwain at dros £360 miliwn o ddirwyon yn cael eu gorfodi. Canfuom fod y cwmni fferyllol Advanz wedi codi prisiau gormodol ac annheg am gyflenwi tabledi liothyronin sy'n cael eu defnyddio i drin diffyg yr hormon thyroid. Mewn achos arall, canfuom fod Auden Mckenzie ac Actavis UK wedi codi prisiau eithriadol o uchel ar y GIG am gyflenwi tabledi hydrocortison ers bron i ddegawd. Mae'r ddau benderfyniad yn destun apêl ar hyn o bryd yn y Tribiwnlys Apeliadau Cystadlu.

2.23. Byddwn yn parhau i ymchwilio i achosion o uno cwmnïau er mwyn sicrhau nad yw prynwyr ledled y DU yn colli allan o ganlyniad i strwythurau marchnadoedd mwy dwys, a all arwain at ganlyniadau gwael. Yn ddiweddar, gwnaethom dderbyn ymgymeriadau ar gyfer caffaeliad wedi'i gwblhau gan Bellis Acquisition Company 3 Limited o Asda Group Limited ar ôl i bryderon ynghylch cystadleuaeth gael eu hamlygu. Roeddem yn bryderus y gallai'r pryniant arwain at brisiau petrol uwch mewn rhai mannau o'r DU.

2.24. Darparodd ein Hwb Ymddygiadol[9] ddadansoddiad sylfaenol hanfodol a chymorth i achosion gorfodi prynwyr, gan gynnwys yn erbyn McAfee a Norton, a gafodd ryngweithiadau â'r CMA yn ddiweddar gan gynnig ad-daliadau cymesurol i gwsmeriaid a gafodd eu hadnewyddu yn awtomatig, pan nad oeddent yn dymuno adnewyddu eu tanysgrifiadau. Bydd yr arbenigwyr ymddygiad hyn yn parhau i weithio'n agos â'n timau prynwyr, marchnadoedd, a datrysiadau; gan gynnwys gyda'r nod o wella ein gwybodaeth ynghylch bregusrwydd prynwyr, a mesurau posibl i leddfu hynny.

[9] Lansiwyd yr Hwb Ymddygiadol er mwyn gwella ein dealltwriaeth o anghenion prynwyr yn ogystal â sut mae busnesau yn dylunio a thargedu eu cynhyrchion a'u gwasanaethau

2.25. Rydym yn croesawu'r cynigion a nodir yn ymgynghoriad llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r polisi cystadlaethau a phrynwyr.[10] Gyda'i gilydd, bydd y cynigion hyn yn hyrwyddo marchnadoedd teg, agored a chystadleuol ac yn diogelu buddion prynwyr. Rydym yn parhau i fod o'r farn y byddai cyfraith diogelu prynwyr a grymoedd cryfach i'r CMA – gan gynnwys cyflwyno grymoedd gwneud penderfyniadau gweinyddol a dirwyo ar gyfer achosion sifil o dorri rheolau – yn helpu i atal rhai o'r arferion niweidiol a all ymddangos wrth i'r economi adfer ac addasu, a mynd i'r afael â nhw yn fwy effeithiol.

***Mabwysiadu cystadleuaeth er mwyn hyrwyddo arloesedd, cynhyrchedd a thwf hirdymor ar draws y DU***

2.26. Mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo cystadleuaeth er budd prynwyr, a'n nod yw sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol. Bydd gwaith y CMA yn canolbwyntio ar hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu prynwyr er mwyn annog arloesedd, cynhyrchedd a thwf economaidd cynaliadwy, wrth i'r DU barhau i ymdrin ag effaith barhaus y pandemig. Bydd y CMA yn sicrhau hyn drwy:

- atal neu ddatrys achosion o uno cwmnïau gwrth-gystadleuol, a thrwy gosbi a rhwystro busnesau sy'n cytuno i gyfyngu cystadleuaeth (er enghraifft drwy osod prisiau neu rannu marchnadoedd), neu'n cam-drin eu grym yn y farchnad drwy ei defnyddio i leihau cystadleuaeth neu amlygu cwsmeriaid;
- gweithredu'n llym o ran gorfodi deddf diogelu prynwyr, er mwyn diogelu prynwyr a sicrhau nad ydynt yn cael eu trin yn annheg gan fusnesau, a'u helpu i gael iawndal pan mae problemau yn codi;
- gweithredu – ac argymell i eraill weithredu hefyd – mewn marchnadoedd lle efallai nad yw'r gystadleuaeth yn gweithio'n dda; a
- chynghori llywodraethau ledled y DU i ddylunio a gweithredu polisi mewn modd sy'n manteisio ar gystadleuaeth, ac yn diogelu a hyrwyddo buddion prynwyr.

2.27. Wrth i ni ddod o'r pandemig, mae nifer o risgiau i gystadleuaeth. Gall busnesau fethu ar gyfradd uwch wrth i'r economi adfer ac addasu i'r drefn newydd lle mae ffafriaeth prynwyr wedi newid, e.e. mwy o ffafriaeth o siopa ar-lein, a pharodrwydd i wneud hynny. Mae'r pwysau hyn hefyd wedi annog

---

[10] Diwygio Polisi Cystadlaethau a Phrynwyr: Hyrwyddo twf a chyflawni marchnadoedd cystadleuol sy'n gweithio i brynwyr – Ymateb y CMA i'r Ymgynghoriad.

busnesau newydd i uno, neu gael eu caffael gan gystadleuwyr cryfach. Yn y cyfamser, mae masnach wedi'i heffeithio gan nifer o ffactorau, gan gynnwys cyfyngiadau ar deithio a chynnydd yng nghostau morgludiant. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn dueddol o leihau pwysau cystadleuol ar fusnesau yn yr economi, gyda chanlyniadau niweidiol posibl i brynwyr, busnesau a'r economi ehangach.

2.28. Byddwn yn parhau i fod yn effro, gan ddefnyddio ein grymoedd i fynd i'r afael ag ymddygiad a fyddai'n niweidio prynwyr. Bydd y CMA yn asesu'n ofalus cwmnïau sy'n uno a allai wanhau cystadleuaeth, codi prisiau a lleihau ansawdd, arloesedd a dewis, a mynd i'r afael ag achosion posibl o dorri cyfraith cystadlaethau a phrynwyr. Byddwn yn rhoi pen ar gartéls ac ymddygiad cydgynllwyniol arall sy'n ceisio cadw prisiau yn uchel, a dirwyo busnesau sy'n torri'r gyfraith. I'r perwyl hwn, rydym ar hyn o bryd yn ymchwilio i achos a ddrwgdybir o drefniadau gwrth-gystadleuol yn y sector gwasanaethau ariannol, a chyflenwi gwasanaethau adeiladu ym Mhrydain Fawr.

2.29. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein grymoedd gwahardd cyfarwyddwyr mewn achosion gorfodi cystadleuaeth er mwyn sicrhau atebolrwydd unigol am gamweddau. Ers y defnyddiwyd y grym am y tro cyntaf yn 2016, rydym wedi gwahardd 24 o gyfarwyddwyr, gan gynnwys cyfarwyddwyr a oedd ynghlwm ag ystod o sectorau, gan gynnwys y sectorau adeiladu, fferyllol ac asiantaethau tai. Ar hyn o bryd, mae gennym nifer o achosion gwahardd cyfarwyddwyr ar y gweill, gan gynnwys gweithdrefnau parhaus i wahardd cyfarwyddwr am fod ynghlwm â throsedd cyfnewid gwybodaeth a ddeilliodd o ymchwiliad Nortiptylin y CMA.[11]

2.30. Byddwn yn hyrwyddo twf ar draws holl genhedloedd a rhanbarthau'r DU drwy barhau i fod yn effro i faterion sy'n bygwth cystadlaethau yn y Cenhedloedd Datganoledig. Rydym ar hyn o bryd yn ymchwilio i CHC yn prynu busnes hofrennydd alltraeth olew a nwy yn Aberdeen gan Babcock's. Rydym yn bryderus y gallai colli un o'n pedwar cyflenwr arwain at brisiau uwch a gwasanaethau o ansawdd is i gwsmeriaid.

2.31. Ni fyddwn yn oedi i weithredu'n gyfreithiol pan mae busnesau yn methu â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a osodir arnynt yn ystod ymchwiliad, megis gofyniad i ddarparu gwybodaeth neu ofyniad i gydymffurfio â gorchymyn

---

[11] Nortriptyline investigation: director disqualification - GOV.UK (www.gov.uk)

gorfodi cychwynnol.[12] Yn ddiweddar, aethom â Norton, cyflenwr meddalwedd gwrth-feirysau, i'r Llys am beidio â darparu'r wybodaeth y gofynasom amdani i ymchwilio i achosion o adnewyddu contractau yn awtomatig. Rydym hefyd wedi gorfodi dirwy o £50.5 miliwn ar Facebook am dorri gorchmynion y gwnaethom eu gorfodi yn ystod ymchwiliad i'w pryniant o Giphy.

2.32. Byddwn yn archwilio marchnadoedd nad ydynt yn gweithio'n dda. Ym mis Gorffennaf, gwnaethom lansio ymgynghoriad i a ddylid lansio ymchwiliad i'r farchnad i rwydwaith Airwave Motorola – y rhwydwaith radio symudol a ddefnyddir gan yr holl wasanaethau brys ym Mhrydain Fawr. Ym mis Hydref, gwnaethom gadarnhau ein penderfyniad i lansio ymchwiliad i bryderon cychwynnol nad yw cyflenwad y rhwydwaith Airwave ym Mhrydain Fawr yn gweithio'n dda, gan arwain at niwed sylweddol i brynwyr a'r trethdalwr.

2.33. Wrth i ni barhau i ymdrin ag effeithiau economaidd y pandemig, bydd y CMA yn parhau i ddarparu cyngor cadarn ac annibynnol i lywodraethau ledled y DU. Eu cefnogi a'u herio i ddylunio polisïau, rheoliadau a deddfwriaethau sy'n helpu i sicrhau bod buddion prynwyr yn cael eu diogelu, a bod cystadlaethau yn cael eu cynnal, o ystyried ei rôl hanfodol yn mabwysiadu adferiad a thwf cynaliadwy.

2.34. Mae ein hymateb i'r materion a achoswyd gan y pandemig wedi dangos ein gallu i fod yn sefydliad hyblyg, drwy fod ynghlwm â materion newydd ac ymateb yn gyflym i ymdrin â nhw. Rydym wedi dysgu gwersi o'r profiad ac wedi mabwysiadu llawer o'r ddysg hon yn arfer orau, y gallwn barhau i ddibynnu arni i ymateb wrth i faterion godi yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i fod yn hyblyg, yn ymgysylltu'n agos â phrynwyr i ddeall unrhyw broblemau posibl ym marchnadoedd wrth iddynt gael eu hamlygu, ac ymateb yn gyflym, pryd bynnag y gallwn ni, i fynd i'r afael â'r broblem a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda i brynwyr, busnesau a'r economi.



### *Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd digidol*

2.35. Mae cystadleuaeth yn annog busnesau i gynnig cynhyrchion a gwasanaethau arloesol am bris gwell, sy'n hanfodol i wella cynhyrchedd a thwf. Mae'r broses hon yn fuddiol i brynwyr, busnesau a'r economi ehangach. Mae natur ddynamig ac arloesol marchnadoedd digidol yn golygu bod potensial enfawr i

[12] Mae hyn yn sicrhau bod cwmnïau yn parhau i gystadlu â'i gilydd fel pe na fyddent wedi uno, ac yn atal cwmnïau sydd ynghlwm rhag cael eu mewnosod ymhellach yn ystod ymchwiliad i achos o uno cwmnïau.

greu gwerth. Mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau'r buddion eang sydd ynghlwm â digideiddio i brynwyr, gan sicrhau yr ymdrinnir â phryderon yn briodol ac annog y marchnadoedd hyn i weithredu mewn modd sy'n mabwysiadu arloesedd a thwf.

2.36. Mae defnydd o'r digidol wedi bod yn cynyddu ar draws pob sector o'r economi, gyda mwyfwy o brynwyr a busnesau yn trosglwyddo eu masnachu ar-lein. Mae'r pandemig wedi cyflymu hyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda mwy o brynwyr ledled y DU yn dibynnu ar opsiynau digidol. Gyda chyfyngiadau COVID-19 yn dod i ben, mae'n bosibl y bydd nifer o brynwyr yn parhau â'u harferion ar-lein, sy'n golygu y gallai mwy o brynwyr wynebu problemau mewn marchnadoedd digidol.

2.37. Mae cwmnïau technegol mawr yn cyflwyno heriau newydd i awdurdodau cystadlaethau ledled y byd sy'n gofyn dull newydd o weithio. Dyma pam mae'r CMA yn gweithredu rôl flaenllaw o ran mynd i'r afael â'r heriau hyn er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd, er budd cwsmeriaid, yn ogystal â'r nifer o fusnesau sy'n dibynnu ar y gwasanaethau pwysig hyn.

2.38. Sefydlwyd yr Uned Marchnadoedd Digidol dros dro ym mis Ebrill 2021. Bydd yr Uned Marchnadoedd Digidol yn goruchwylio trefn reoleiddio newydd ar gyfer y cwmnïau digidol mwyaf grymus, yn hyrwyddo mwy o gystadleuaeth ac arloesedd yn y marchnadoedd lle mae'r cwmnïau hyn yn gweithio, a diogelu defnyddwyr a busnesau rhag arferion annheg. Bydd yr Uned Marchnadoedd Digidol yn edrych yn agos at ymarferion y cwmnïau digidol mwyaf grymus, gan weithredu yn erbyn arferion niweidiol yn ogystal ag agor marchnadoedd yn rhagweithiol er mwyn hyrwyddo mwy o gyfleoedd ar gyfer cystadleuwyr newydd ac arloesol.

2.39. Mae'r CMA yn gweithio'n agos â llywodraeth y DU, yn dilyn yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y cynllun o blaid cystadleuaeth. Bydd angen deddfwriaeth i roi grymoedd i'r Uned Marchnadoedd Digidol ac ar gyfer y drefn reoleiddio newydd. Mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddeddfu pan fydd yr amser Seneddol yn caniatáu. Yn y cyfamser, sefydlwyd yr Uned Marchnadoedd Digidol o fewn y CMA, yn anstatudol i ganolbwyntio ar ddod yn weithredol a pharatoi ar gyfer y drefn newydd.

2.40. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein hadnoddau cyfredol i fynd i'r afael â phroblemau mewn marchnadoedd digidol. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith yn ymchwilio i gwmnïau sydd wedi'u huno sydd â'r potensial i arwain at ostyngiad sylweddol yng nghystadlaethau marchnadoedd digidol, megis adolygu achosion o uno cwmnïau rhwng Facebook/Giphy ac Adevinta/eBay. Byddwn

yn parhau i ddatblygu ein portffolio o achosion gorfodi cystadleuaeth yn ymchwilio i farchnadoedd digidol, gan gynnwys ein hymchwiliad i Apple yn dilyn cwynion bod ei amodau a thelerau ar gyfer datblygwyr apiau yn annheg ac yn wrth-gystadleuol. Rydym hefyd yn ymchwilio i a yw Facebook yn cam-drin sefyllfa ddominyddol yn y marchnadoedd cyfryngau cymdeithasol neu hysbysebu digidol drwy gasglu a defnyddio data hysbysebu.

2.41. Rydym yn lansio astudiaeth i'r farchnad i mewn i ffrydio cerddoriaeth er mwyn datblygu barn ynghylch a yw cystadleuaeth yn y sector hwn yn gweithio'n dda neu a oes angen gweithredu ymhellach. Rydym hefyd yn cynnal astudiaeth i'r farchnad i ecosystemau symudol Apple a Google mewn perthynas â phryderon bod ganddynt rym yn y farchnad sy'n niweidio defnyddwyr a busnesau eraill.

2.42. Rydym nawr yn ystyried ymatebion i ymgynghoriad ynghylch ymrwymiadau mae Google wedi'u cynnig i fynd i'r afael â phryderon ynghylch ei gynnig i gael gwared ar gwcis trydydd parti yn Chrome. Mae'r CMA yn gweithio'n agos â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn yr achos hwn a bydd yn parhau i weithio'n agos â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn asesu effeithiolrwydd opsiynau eraill i gwcis trydydd parti yn cael eu datblygu dan y cynigion. Rydym yn bryderus y gellir datblygu a mewnosod opsiynau eraill Google mewn ffyrdd sy'n rhwystro cystadleuaeth mewn marchnadoedd hysbysebu digidol, pe na chânt eu goruchwylio a'u harchwilio yn rheoleiddiol.

2.43. Byddwn hefyd yn parhau gyda'n ffocws ar orfodi prynwyr mewn marchnadoedd digidol, datblygu ein gwaith ym meysydd megis adolygiadau ffug, cefnogaeth ar gyfryngau cymdeithasol, gamblo ar-lein, a llwyfannau tocynnau eilaidd. Byddwn yn parhau i fonitro'r cwmnïau hynny sydd wedi darparu ymrwymiadau i newid eu hymddygiad ac ni fyddwn yn oedi i weithredu pan ydym yn adnabod achosion o dor cyfraith.

2.44. Mae'r uned Data, Technoleg a Dadansoddeg yn darparu'r sgiliau technegol pwysig sydd eu hangen ar gyfer ein gwaith mewn marchnadoedd digidol. Mae'r uned wedi datblygu sawl adnodd unigryw i echdynnu data a monitro marchnadoedd, ac mae'r gwaith hwn yn parhau i fynd rhagddo. Mae ei pheirianwyr a'i gwyddonwyr data eisoes yn casglu a dadansoddi cyfuniadau o ddata mawr, cymhleth a chyfoethog ar gyfer achosion (e.e. hysbysebion chwilota neu ddigidol). Mae ei Hwb Ymddygiadol yn defnyddio dealltwriaeth o brynwyr a'u rhyngweithiadau â rhyngwynebau cwmnïau digidol. Mae'n cyfrannu at greu datrysiadau technolegol, megis y gallu i ryngweithredu neu dechnegau ar gyfer rhannu data yn ddienw, a chreu technegau newydd, megis dadansoddi a deall algorithmau cwmnïau. Ar y cyfan, mae arbenigedd

technolegol yr uned Data, Technoleg a Dadansoddeg yn ein caniatáu ni i herio cwmnïau yn fwy cadarn ar seiliau technegol. Mae hefyd yn ein helpu ni i ddeall y grymoedd a datblygu'r data a'r sgiliau dadansoddi sydd eu hangen ar gyfer y CMA a'r Uned Marchnadoedd Digidol.

2.45. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cyfatebwyr yn yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom drwy'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol. Mae'r cydweithrediad hwn yn rhoi rhagor o eglurdeb i bobl a busnesau ynghylch rheoli digidol, yn ein galluogi ni i ddatblygu safbwynt cynhwysfawr o dueddiadau a datblygiadau technolegol y diwydiant gyda goblygiadau rheoleiddio, a magu sgiliau a gallu yn fwy effeithlon.

2.46. O ystyried natur fyd-eang y materion sy'n ymwneud â marchnadoedd digidol, byddwn yn parhau â'n hymdrechion tuag at gydweithredu a chydlynu rhyngwladol, gyda golwg ar fabwysiadu cydlyniad a chysondeb yn y dulliau gweithredu, er mwyn atal tirlun rheoleiddio tameidiog. Yn arbennig, fel rhan o Lywyddiaeth G7 y DU, gofynnodd llywodraeth y DU i'r CMA gynnal Uwch-gynhadledd Gorfodi i arwain gwaith i gryfhau cydweithio rhwng awdurdodau cystadlu mewn perthynas â marchnadoedd digidol. Roedd hyn yn cynnwys uwch-gynhadledd awdurdodau cystadlaethau'r G7, ynghyd â gwesteion eleni, ym mis Tachwedd 2021, i hyrwyddo dealltwriaeth o'r dulliau sy'n briodol i faterion yn ymwneud â chystadlaethau mewn marchnadoedd digidol a thrafod cydweithredu a chydlynu yn y tymor hir.



***Cefnogi'r trawsnewid i dwf carbon isel, gan gynnwys drwy ddatblygu marchnadoedd cystadleuol iach mewn cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy***

2.47. Cefnogi ymdrech ehangach i wneud ein heconomi yn lanach ac yn fwy gwyrdd yw un o brif flaenoriaethau'r CMA. Mae pryderon ynghylch newid hinsawdd yn newid dynameg marchnadoedd ac ymddygiadau prynwyr ledled y DU. Mae'r DU yn ymroddedig i darged sy'n rhwymol gyfreithiol o gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050;[13] ac mae twf cynaliadwyedd yn hanfodol i gyflawni'r nod hwn. Mae'n bwysicach nag erioed bod cyrff cyhoeddus, busnesau, sefydliadau anllywodraethol a phrynwyr yn ystyried eu cyfraniad i

[13] UK becomes first major economy to pass net zero emissions law - GOV.UK (www.gov.uk). Mae'r Alban wedi gosod targed i gyflawni allyriadau sero net o nwyon tŷ gwydr erbyn 2045, Newid hinsawdd - gov.scot (www.gov.scot)

gyflawniad Sero Net y DU a nodau cynaliadwyedd amgylcheddol. Hoffem sicrhau bod y trefniadau cystadlaethau a gorfodi prynwyr yn gallu chwarae eu rhan hefyd pryd bynnag mae hynny'n bosibl. Rydym yn parhau i ehangu ein gallu i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn modd sy'n cefnogi'r trawsnewidiad i economi carbon isel pan ydym yn cyflawni ein swyddogaethau. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i gymryd camau tuag at leihau ôl-troed carbon y CMA fel sefydliad.

2.48. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol at y CMA yn gofyn i ni ddarparu cyngor i lywodraeth y DU ar sut mae'r adnoddau sydd ar gael dan gyfraith cystadlaethau a phrynwyr yn gallu cefnogi Sero Net a nodau cynaliadwyedd, gan gynnwys paratoi ar gyfer newid hinsawdd.[14] Rydym wedi lansio galwad ar gyfer safbwyntiau i helpu i fod yn sail i'r cyngor y byddwn yn ei ddarparu, a ddaeth i ben 10 Tachwedd 2021. Rydym yn chwilio i ddarparu cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gynnar yn 2022, yna bydd y cyngor yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach.

2.49. Byddwn yn sicrhau bod busnesau sy'n gysylltiedig â mentrau cynaliadwyedd yn gwybod sut i gydymffurfio â chyfraith cystadleuaeth ac nad ydynt yn peidio ag ymgysylltu â'r mentrau hynny oherwydd pryderon di-sail o dorri cyfraith cystadleuaeth. Rydym wedi creu taflen wybodaeth i helpu busnesau a chymdeithasau masnach ddeall yn well sut mae cyfraith cystadleuaeth yn berthnasol i gytundebau cynaliadwyedd a lle all problemau godi.

2.50. Gan weithio ochr yn ochr ag awdurdodau byd-eang eraill, canfuom y gallai 40% o'r honiadau gwyrdd a wneir ar-lein fod yn gamarweiniol.[15] Cyhoeddasom "Green Claims Code", i helpu busnesau i gydymffurfio â'r gyfraith ac atal pobl rhag cael eu camarwain gan honiadau amgylcheddol, a allai niweidio ar ffydd prynwyr. Mae'r CMA wedi rhybuddio busnesau bod ganddynt hyd at y Flwyddyn Newydd i sicrhau bod eu honiadau amgylcheddol yn cydymffurfio â'r gyfraith. Byddwn yn cynnal adolygiad o honiadau gwyrdd camarweiniol yn gynnar yn 2022 a byddwn yn barod i weithredu yn erbyn cwmnïau sy'n troseddu.

2.51. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu achosion lle allai ymarferion rwystro'r trosglwyddiad i economi carbon isel, gan adeiladu ar waith megis yr astudiaeth i farchnad y cerbydau trydan. Pwysleisiodd yr adroddiad ein pryderon y gall mannau gwefru fod yn 'loteri cod post' ledled y DU, gydag amrywiaeth sylweddol rhwng cenhedloedd a rhanbarthau'r DU, gyda rhai

---

[14] CMA consults on environmental sustainability advice - GOV.UK (www.gov.uk)
[15] Global sweep finds 40% of firms' green claims could be misleading

ardaloedd mewn risg o gael eu gadael ar ôl. Er enghraifft, mewn cymhariaeth â chyfartaledd y DU (a Lloegr) o 39 o fannau gwefru cyhoeddus fesul 100,000 o'r boblogaeth, mae gan Gymru 31, mae gan yr Alban 49 ac mae gan Ogledd Iwerddon 18. Mae amrywiaeth hefyd mewn rhanbarthau - mae gan Swydd Efrog a'r Humber lai na thraean o'r nifer o fannau gwefru cyhoeddus fesul pen mewn cymhariaeth â Llundain, ac mae amrywiaethau i'w cael ar draws Awdurdodau Lleol yn y pedair cenedl hefyd.[16] Cyflwynwyd yn yr astudiaeth i'r farchnad becyn o armgymhellion i lywodraethau y DU wedi'i ddylunio i fodloni graddfa'r her gyfan, datgloi cystadleuaeth ar draffyrdd, targedu bylchau cefn gwlad, hybu buddsoddiad mewn mannau gwefru ar y strydoedd a datblygu sector gwefru y gall pobl ymddiried ynddo, ac sydd mor hawdd â llenwi car gyda phetrol/diesel, nawr ac yn y dyfodol.

2.52. Yn dilyn yr astudiaeth i'r farchnad, rydym wedi bod yn ymchwilio i drefniadau hirdymor arbennig rhwng Electric Highway – darparwr Mannau Gwefru – a thri gweithredwr gwasanaethau'r traffyrdd – MOTO, Roadchef ac Extra.[17] Mae'r CMA yn bryderus bod y trefniadau hyn yn ei gwneud hi'n anodd i weithredwyr eraill ddarparu mannau gwefru i gystadlu yng ngwasanaethau traffyrdd. Gallai hyn arwain at yrwyr yn colli allan ar fuddion cystadleuaeth megis rhagor o ddarpariaeth, mwy o ddewis, prisiau cystadleuol a mannau gwefru dibynadwy, o ansawdd. Bellach rydym wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus yn seiliedig ar yr ymrwymiadau a gynigir gan y cwmnïau. Drwy fod ynghlwm â hyn yn gynnar, wrth i'r marchnadoedd dan sylw barhau i ddatblygu, gall y CMA weithio i sicrhau bod prynwyr yn cael eu trin yn deg, nawr ac yn y dyfodol. Bydd ein gwaith o ran gwella marchnadoedd fel hyn yn gwella hyder prynwyr ac yn annog pobl i fanteisio ar opsiynau cynaliadwy.

2.53. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio gyda rhanddeiliaid yn y DU ac yn rhyngwladol ar newid hinsawdd, yn ogystal â materion eraill. Yn dilyn ein peilot ymgysylltiad rhanbarthol llwyddiannus yng ngogledd-orllewin Lloegr, rydym yn awyddus i ehangu'r gwaith hwn ar draws ardaloedd eraill y DU (gweler paragraff 3.8). Yn ogystal, mae rhaglen allgymorth y CMA i'r trydydd sector wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â sefydliadau'r trydydd sector gan gasglu dealltwriaeth ynghylch meysydd eraill megis ein gwaith ar honiadau gwyrdd camarweiniol (gweler paragraff 2.50) a gwefru cerbydau trydan (gweler paragraffau 2.51 a 2.52). Byddwn yn datblygu'r perthnasoedd hyn i barhau i hwyluso deialog ynghylch y berthynas rhwng polisi cystadlaethau a chynaliadwyedd.

---

[16] Cafodd y ffigyrau hyn eu diweddaru fis Hydref 2021 a gallwch eu gweld drwy ddilyn y ddolen hon Official statistics overview: Electric vehicle charging device statistics: October 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)
[17] Further action needed on EV charging to meet Net Zero - GOV.UK (www.gov.uk)

***Cyflawni ein cyfrifoldebau newydd a chryfhau ein safle fel awdurdod byd-eang diogelu cystadleuaeth a phrynwyr***

2.54. Mae ein gwaith paratoi trylwyr wedi sicrhau bod gennym y bobl, y sgiliau a'r seilwaith yn eu lle i ymdrin â'n rôl estynedig y tu allan i'r UE. O ganlyniad, rydym wedi datblygu achosion a fyddai yn y gorffennol wedi'u cadw i'r Comisiwn Ewropeaidd; rydym wedi lansio Swyddfa'r Farchnad Fewnol; wedi dechrau gweithredu'r Uned Marchnadoedd Digidol dros dro (gweler paragraff 2.38 uchod); ac wedi ail-ddechrau ein gwaith ar gynllun rheoli cymorthdaliadau'r DU yn y dyfodol drwy baratoi i greu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

2.55. Cafodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ei lansio 21 Medi 2021. Ei thasg yw cefnogi marchnad fewnol y DU i weithredu'n effeithiol gan ddefnyddio ei harbenigedd economaidd a thechnegol, yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE. Bydd yn darparu adroddiadau i lywodraethau Cymru, yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a llywodraeth y DU. Bydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn taflu goleuni ar ba mor effeithiol all cwmnïau werthu eu cynhyrchion a'u gwasanaethau i bobl ar draws y pedair cenedl, ar ôl Brexit. Bydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn gwrando ar bryderon ac yn adrodd ar unrhyw rwystrau mae busnesau yn eu hwynebu i bob llywodraeth. Er mwyn hwyluso hyn, rydym wedi llunio ffurflen we 'Report an Internal Market Webform' a gall busnesau a rhanddeiliaid eraill ddefnyddio honno i rannu eu profiadau o sut mae marchnad fewnol y DU yn gweithio.

2.56. Os caiff y Bil Rheoli Cymorthdaliadau, a gafodd ei gyflwyno i'r Senedd fis Mehefin 2021, ei ddeddfu, bydd yn sefydlu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn y CMA. Bydd gan yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau rôl yn monitro ac adrodd ar swyddogaeth gyffredinol y cynllun rheoli cymorthdaliadau newydd, yn ogystal â darparu cyngor heb fod yn rhwymol i awdurdodau cyhoeddus ar nifer fach o gymorthdaliadau a chynlluniau unigol sydd fwyaf tebygol o gael effeithiau niweidiol. Bydd atgyfeirio at yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn wirfoddol ar gyfer "Cymorthdaliadau Budd" ac yn hanfodol ar gyfer "Cymorthdaliadau Budd Penodol" (a fydd yn cael eu diffinio mewn rheoliadau i'w gwneud i'r Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol cyn dechrau'r cynllun newydd). Bydd yn caniatáu awdurdodau cyhoeddus i gael safbwynt gwrthrychol ynghylch eu hasesiadau cyn caniatáu cymhorthdal, gan sicrhau y gallant weithredu'n gyflym, heb unrhyw oedi diangen. Rydym yn dilyn cynnydd y Bil Rheoli Cymorthdaliadau drwy'r Senedd ac yn gweithio'n agos â'r Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i baratoi at sefydlu'r Uned Cyngor ar

Gymorthdaliadau (sy'n debygol o lansio hydref 2022, yn amodol ar amseru'r Cydsyniad Brenhinol).

2.57. Rydym hefyd wedi cyflwyno argymhelliad i lywodraeth y DU ar ddeddfwriaeth newydd y DU i eithrio cytundebau 'fertigol' o blaid cystadleuaeth rhwng cwmnïau (gan ddisodli rheoliadau'r UE sy'n dal i fod ar waith yng nghyfraith y DU ar hyn o bryd), a fydd yn rhoi sicrwydd i fusnesau ynghylch cydnawsedd eu trefniadau dosbarthu â chyfraith cystadlaethau a diogelu prynwyr rhag cytundebau niweidiol. Byddwn yn adolygu rheoliadau eraill yr UE sy'n cael eu cadw yng nghyfraith y DU maes o law, er mwyn cyflwyno rhagor o argymhellion i lywodraeth y DU, gan gynnwys mewn perthynas â rheoliadau sydd ynghlwm â threfniadau ymchwil a datblygu, dosbarthiad cerbydau modur, a morgludo cynwysyddion.

2.58. Byddwn yn parhau i gyhoeddi unrhyw ganllawiau perthnasol wrth i'n swyddogaethau a'n grymoedd ddatblygu. Rydym hefyd yn parhau i fod yn agored ac yn barod i siarad â busnesau, prynwyr a grwpiau prynwyr ac unrhyw barti arall sydd â diddordeb ac sydd o bosibl yn awyddus cyflwyno ymholiadau neu bryderon mwy penodol ynghylch swyddogaethau newydd y CMA neu'r ffordd yr ydym yn mynd ati i gyflawni ein swyddogaethau cyfredol.

2.59. Mewn perthynas ag achosion o uno cwmnïau a gwrthymddiried, byddwn yn parhau i olrhain yr achosion mwy a mwy cymhleth hynny sydd â dimensiwn byd-eang. Rydym nawr yn datblygu achosion a fyddai yn y gorffennol wedi'u cadw i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i gynigion Google i gael gwared ar gwcis trydydd parti a swyddogaethau eraill o'i borwr Chrome (gweler paragraff 2.42), a'r caffaeliad disgwyliedig o Kustomer, Inc. gan Facebook, Inc. Rydym hefyd wedi dechrau ymchwiliad i'r uno rhwng Cargotec Corporation a Konecranes Plc ar y cyd ag awdurdodau eraill, gan gynnwys y Comisiwn Ewropeaidd, yr Adran Cyfiawnder a Chomisiwn Cystadlaethau a Phrynwyr Awstralia.

2.60. Wrth i'r CMA ymgymryd â'i rôl estynedig, mae hyd yn oed yn bwysicach i ni fagu perthnasoedd cryfion ledled y byd, a gweithio gyda phartneriaid yn agosach at y cartref ac ymhellach draw er mwyn diogelu prynwyr yn y DU a thu hwnt. Gyda marchnadoedd yn dod yn fwyfwy byd-eang a thwf marchnadoedd digidol a nodwyd uchod, mae awdurdodaethau gwahanol yn wynebu nifer o'r un heriau. Mae'n hollbwysig bod gennym gydweithrediad rhwng asiantaethau i fynd i'r afael â gweithgarwch gwrth-gystadleuol a materion diogelu prynwyr ar draws ffiniau mewn byd sy'n fwyfwy byd-eang.

2.61. Byddwn yn parhau â'n hymgysylltiad a'n cydweithrediad agos ag ystod o bartneriaid rhyngwladol ar amrywiaeth eang o faterion. Mae hyn yn cynnwys ein cyd-gyfranogwyr yn y Multilateral Mutual Assistance Cooperation Framework, yn ogystal â'r Comisiwn Ewropeaidd ac asiantaethau cystadlaethau a phrynwyr eraill yn yr UE ac yn fyd-eang. Credwn y gall y math hwn o gydweithio uchafu ein heffaith – er enghraifft, ym mis Ebrill gwnaethom ymuno â'n cyfatebwyr yn Awstralia a'r Almaen i sefydlu'r angen am rymuso mwy cadarn mewn perthynas ag uno cwmnïau i hybu twf economaidd ar ôl y pandemig.[18] Byddwn yn ceisio adeiladu ar y perthnasoedd rhyngwladol hyn a pharhau i fod yn gyfranogwyr gweithredol ac ymroddedig mewn fforymau pwysig, fel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, y Rhwydwaith Cystadleuaeth Rhyngwladol, y Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Diogelu a Gorfodi Prynwyr a Chynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Fasnach a Datblygiad.

2.62. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn gweithio'n agos â'n partneriaid yn agosach at y cartref. Ochr yn ochr â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gwnaethom bwysleisio yn ddiweddar y gorgyffyrddiad rhwng hyrwyddo a diogelu cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol a diogelu data pobl. Dyma'r datganiad cyntaf o'i fath yn fyd-eang, a bydd yn parhau i osod esiampl gadarnhaol i'n cyfatebwyr rhyngwladol, gan ddangos ein safle fel awdurdod cystadlaethau blaenllaw.

2.63. Mae gan y gwaith annibynnol a chryf o orfodi cyfraith diogelu cystadlaethau a phrynwyr ran bwysig i'w chwarae fel rhan o gytundebau masnach rhyngwladol y gall y DU gymryd rhan ynddynt, gan sicrhau bod busnesau o'r ddwy ochr yn gallu cystadlu'n deg ac er budd prynwyr. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â llywodraeth y DU wrth iddi sefydlu perthnasoedd masnach cryf newydd gyda phartneriaid allweddol.

---

[18] UK, Australia and Germany issue statement on merger control

# 3. CMA yn y 2020au

3.1. Ar ddechrau 2020, sefydlodd y CMA ein huchelgais i ddod â'r CMA yn agosach at brynwyr a'u hanghenion. Mae cynnydd helaeth wedi'i wneud yn barod. Rydym yn mewnoli nifer o'r gwersi a ddysgwyd drwy'r broses ac yn mabwysiadu'r rhain yn arferion gorau o ran sut ydym yn ymgysylltu â phrynwyr er mwyn deall eu problemau, egluro ein rôl ac eirioli ar eu rhan.

3.2. Rydym wedi bod yn ymgysylltu ag ystod ehangach a mwy amrywiol o randdeiliaid nag erioed o'r blaen, gan gynnwys ymgysylltu'n fwy â phrynwyr, busnesau bach, awdurdodau lleol ac elusennau ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU. Byddwn yn parhau â'r allgymorth hwn ac yn ystyried mewnosod y gweithgareddau yn rhan graidd o sut ydym yn mynd ati i wneud ein gwaith bob dydd ar draws y sefydliad.

3.3. Gyda mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y DU, gan gynnwys yn y Cenhedloedd Datganoledig, byddwn yn parhau i wella ymwybyddiaeth o gyfraith cystadleuaeth a phrynwyr, a chydymffurfiaeth â hi; er mwyn datblygu dealltwriaeth o rôl y CMA; a chael cipolwg ar sut all ein gwaith wasanaethu'r gymdeithas yn well. Yn yr un modd ag y gwnaethom y llynedd, byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau yn gysylltiedig â'n Cynllun Blynyddol eleni, ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU i wella ein dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu prynwyr a busnesau ac egluro ein gwaith.

3.4. Yn ogystal â'n swyddfeydd yn Llundain, Caeredin, Caerdydd a Belfast, rydym yn agor swyddfa ym Manceinion, a fydd yn gartref i'r Uned Marchnadoedd Digidol newydd, ac yn sefydlu Uned Ficroeconomeg ar gampws Darlington Trysorydd EM. Drwy ehangu ein presenoldeb y tu hwnt i Lundain, rydym yn gobeithio dod yn agosach at brynwyr ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU.

## Deall marchnadoedd a phrynwyr yn well

3.5. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o anghenion newidiol prynwyr a'u profiadau nhw o farchnadoedd, lle bynnag maent yn y DU. Bydd hyn yn cynnwys monitro cyflwr y cystadlaethau a sut mae marchnadoedd yn newid o ganlyniad i effaith barhaus COVID-19, yn ogystal â swyddogaeth Marchnad Fewnol y DU.

3.6. Bydd yr Hwb Ymddygiadol (gweler paragraff 2.24) a'n tîm Dealltwriaeth Data a Thechnoleg yn ein huned DaTA (gweler paragraff 2.44) yn parhau i

ddatblygu’r sylfaen dystiolaeth ar Saernïo Dewis Ar-lein ac erbyn hyn maent yn canolbwyntio ar raglen waith, a allai gynnwys cyhoeddi rhai darnau ymchwil ac arweiniad yn seiliedig ar Saernïo Dewis Ar-lein, gan ddarparu cyngor i’r llywodraeth a lansio ymgyrch cyfathrebu yn 2022.

3.7. Byddwn yn parhau â’n hymgysylltiad parhaus â Sefydliadau’r Trydydd Sector i ennill dealltwriaeth well a safbwyntiau ynghylch meysydd yn ein gwaith, gan gynnwys yr effeithiau ar brynwyr bregus, er mwyn i ni allu ystyried sut all dealltwriaeth barhau i fod yn sail i’n gwaith. Bydd yr allgymorth hwn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer rhaglen dreigl o ymweliadau i Cyngor ar Bopeth, wrth i ni fewnosod y gweithgareddau yn rhan graidd o sut ydym yn mynd ati i wneud ein gwaith bob dydd ar draws y sefydliad.

3.8. Yn dilyn ein peilot ymgysylltu rhanbarthol llwyddiannus yng ngogledd-orllewin Lloegr, rydym ar hyn o bryd yn gwerthuso’r peilot gyda ffocws penodol ar farchnadoedd digidol a busnesau bach a chanolig ac rydym yn awyddus i ehangu’r gwaith hwn gyda rhanddeiliaid ar draws gogledd Lloegr, gan gynnwys y gogledd-ddwyrain a Swydd Efrog a’r Humber. Byddwn hefyd yn ymestyn ein hymgysylltiad targedig gyda chymunedau busnes ym Mryste a’r cyffiniau.

## Pam mae cystadleuaeth yn bwysig, a beth yw gwaith a blaenoriaethau’r CMA?

3.9. Byddwn yn parhau â’n gwaith i wella ymwybyddiaeth ledled y DU o sut mae marchnadoedd cystadleuol, sy’n gweithio’n dda yn gwasanaethu prynwyr, busnesau a’r economi ehangach. O ymgysylltu Bwrdd parhaus ar draws y cenhedloedd a gwaith allgymorth swyddogol gyda’r llywodraeth a rhanddeiliaid, byddwn yn parhau i egluro sut mae gwaith y CMA yn cefnogi’r amcan hwn, a’r rhesymeg wrth wraidd ein blaenoriaethau, cynlluniau, a detholiad o brosiectau, er enghraifft defnyddio fideos a phostiadau ar gyfryngau cymdeithasol sy’n helpu i egluro ein gwaith mewn modd sy’n hawdd ei ddeall, a dangos y manylion wrth wraidd y cyhoeddiadau. A byddwn yn parhau i weithio â’r gymuned fusnes i egluro pwysigrwydd cyfraith cystadleuaeth a phrynwyr, a sut i gydymffurfio â hi.

3.10. Byddwn yn parhau â’n gwaith i sicrhau bod y wybodaeth yr ydym yn ei chynhyrchu yn hygyrch i bawb, gan gydymffurfio â phob deddfwriaeth hygyrchedd berthnasol. Bydd tîm digidol y CMA yn parhau i gyhoeddi dogfennau ar ffurf HTML, ac yn datblygu ymhellach llwyfannau a theithiau digidol eraill, i sicrhau bod gan bawb fynediad at y wybodaeth bwysig a gynhyrchir gan y CMA.

3.11. Gan ddefnyddio ystod ehangach o adnoddau a sianelau (e.e. cynnwys fideo a chyfryngau cymdeithasol), byddwn yn parhau i ehangu'r gynulleidfa ar gyfer ein negeseuon. Yn ogystal â chreu postiadau cyfryngau cymdeithasol sy'n egluro'n glir gwaith neu safbwyntiau'r CMA, rydym hefyd wedi cael nifer o enwogion poblogaidd yn darparu troslais ar gyfer ein postiadau cyfryngau cymdeithasol teilwredig.

## Eirioli buddion prynwyr

3.12. Rydym yn eirioli er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth er budd prynwyr ar faterion rheoleiddio, polisi a deddfwriaethol, drwy ein hargymhellion a'n cyngor i'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus. Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor cadarn ac annibynnol i lywodraethau ledled y DU. Eu cefnogi a'u herio i ddylunio polisïau, rheoliadau a deddfwriaethau sy'n helpu i sicrhau bod buddion prynwyr yn cael eu diogelu, a bod cystadlaethau yn cael eu cynnal, o ystyried ei rôl hanfodol yn mabwysiadu adferiad a thwf cynaliadwy.

3.13. Byddwn yn parhau i drefnu amrywiaeth o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid i gyflwyno Swyddfa'r Farchnad Fewnol a chodi ymwybyddiaeth o'i gwaith. Rydym hefyd yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig ac adrannau llywodraeth y DU ynghylch Swyddfa'r Farchnad Fewnol.

3.14. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynigion allgymorth gan ystyried sut ellir ehangu ein hymgysylltiad rhanbarthol ar draws gweddill rhanbarthau Lloegr a sut mae'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd orau ag ymgysylltiad â'r cenhedloedd, a'u plethu.

3.15. Mae ein gwaith ymgyrchu yn parhau i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar brynwyr, gan gynnwys ein gwaith diweddaraf ar ein Green Claims Code. Rydym yn cynllunio ymgyrch ymwybyddiaeth yn seiliedig ar brynwyr i rymuso prynwyr wrth iddynt siopa ar-lein, a bydd hwn yn cael ei lansio yn gynnar yn 2022.

## 4. Adnoddau

4.1. Yn Adolygiad o Wariant 2021, neilltuwyd cyllideb y CMA ar gyfer 2022/23 fel cyllideb Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau (ac eithrio dibrisiant) o £112.5 miliwn a chyllideb Cyfalaf o £9.5 miliwn.

4.2. Mae'r taliad hwn yn parhau i gynnwys cyllid i gefnogi swyddogaethau craidd y CMA yn ogystal ag ariannu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Swyddfa'r Farchnad Fewnol newydd. Mae'r cyllid ar gyfer 2022/23 yn sicrhau bod y CMA yn gallu parhau â'i waith hanfodol yn hyrwyddo cystadleuaeth er budd prynwyr, ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU, cadw prisiau yn isel i brynwyr a hybu arloesedd a chynhyrchedd, a fydd yn hanfodol i gefnogi adferiad yr economi ar ôl y pandemig coronafeirws.

4.3. Mae'r CMA hefyd wedi cael cymorth ariannol parhaus ar gyfer Uned Marchnadoedd Digidol bwrpasol a £1.1 miliwn yn ychwanegol yn 2022/23 i gefnogi ymhellach ei estyniad parhaus cyn cyflwyno'r Bil Cystadleuaeth Ddigidol. Mae cyllid ychwanegol o £1.0 miliwn, i ariannu twf y CMA ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU, a £2.4 miliwn ar gyfer pwysau newydd (e.e. yn ymwneud â chwyddiant a chynnydd i gyfraniadau'r Yswiriant Gwladol) wedi'i ddarparu i'r CMA yn 2022/23.

4.4. Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae Prif Weithredwr y CMA yn bersonol atebol am ddiogelu'r arian cyhoeddus mae'n gyfrifol amdano, am sicrhau priodoldeb a chysondeb wrth ymdrin ag arian cyhoeddus a gwaith a rheolaeth bob dydd y CMA. Cefnogir y Swyddog Cyfrifyddu gan Swyddog Cyfrifyddu arall, a Phrif Swyddog Gweithredu, sy'n rhyddhau'r dyletswyddau hyn.

E02683089
978-1-5286-3019-1